Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Rhosneigr

**Rhosneigr**
**Ynys Môn**
**LL64 5XA**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o drefniadau arolygu peilot. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod â fformat ychydig yn wahanol i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Rhosneigr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Rhosneigr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Cymeriad crefyddol | Amherthnasol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 85 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 71 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 7 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 18.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 9.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 31% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2015 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 10/11/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/02/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth, ynghyd â staff cydwybodol yr ysgol, yn meithrin lles, gofal a chymorth disgyblion yn effeithiol. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae'r ymdeimlad cartrefol a chynhwysol yn cefnogi disgyblion i arddel agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae athrawon a'r cymorthyddion yn cefnogi lles a dysgu y disgyblion yn effeithiol.

Mae staff yn rhyngweithio'n gefnogol â disgyblion sy'n creu amgylchedd dysgu cynhyrchiol. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda yn ystod eu gweithgareddau, wrth ddysgu'n annibynnol, ac wrth gyd-chwarae â'u ffrindiau yn ystod amseroedd egwyl.

Mae athrawon yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod y rhan fwyaf o weithgareddau yn ennyn diddordeb y disgyblion, gan gynnig adborth a chymorth defnyddiol iddynt, lle bo'n berthnasol. Er hyn, nid yw'r gweithgareddau dysgu bob amser yn ymateb i anghenion ac yn herio'r holl ddisgyblion. Mae staff yn cysylltu dysgu'r disgyblion â phartneriaethau cymunedol gwerthfawr yn hynod lwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cynnydd o ran datblygiad eu medrau, gan gynnwys medrau mathemateg a digidol. Mae medrau Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblon yn datblygu'n effeithiol. Er hyn, nid yw eu medrau llafar a darllen Cymraeg yn datblygu i'r un safon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau ei gilydd yn y sesiynau dysgu.

Mae gan y pennaeth a'r staff berthynas gadarnhaol a systemau cyfathrebu effeithiol â rhieni, gan gynnwys rhieni disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). O ganlyniad, mae rhieni yn hyderus i godi unrhyw fater all effeithio ar les a dysgu eu plant. Er enghraifft, mae rhieni'n gwerthfawrogi cyfleoedd buddiol i fynychu boreau i ddathlu gwaith eu plant yn y sesiynau 'Boreau Balch'.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud 2 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Datblygu medrau llafar a darllen Cymraeg disgyblion

A2 Darparu gweithgareddau dysgu pwrpasol sy'n ymateb i anghenion disgyblion ac yn eu herio'n effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

Mae Ysgol Rhosneigr yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy'n dathlu ymdrech a chynnydd yr holl ddisgyblion yn effeithiol. Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth werthfawr y corff llywodraethol, yn cynnig arweinyddiaeth glir a doeth, ac yn parchu ymdrechion pawb sy'n cyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion. Mae ganddynt weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau bod yr ysgol yn un teulu clòs a chyfeillgar. Mae'r ethos gofalgar yn meithrin y disgyblion i ddatblygu'n aelodau gwerthfawr a chyfrifol o fewn cymuned yr ysgol a'r ardal leol.

Mae ardaloedd dysgu bwriadus a difyr yn cyfannu'n effeithiol at ddatblygu medrau cyfathrebu cynnar, cymdeithasol a rhyngweithio'r disgyblion. Mae arweinwyr wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr ardaloedd allanol ysgogol ar gyfer yr holl ddisgyblion, sy'n cynnwys ystod o offer deniadol a phwrpasol i'w cefnogi i ddatblygu eu lles a'u medrau dysgu.

Mae staff yn darparu cwricwlwm pwrpasol sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad yn briodol. Maent yn ystyried sylwadau disgyblion a'u rhieni yn fwriadus wrth gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n ennyn diddordeb y disgyblion a'u perchnogaeth o'r themâu tymhorol. Mae cysylltu dysgu'r disgyblion â phartneriaethau cymunedol gwerthfawr yn gryfder ar draws yr ysgol.

**Cameo – Cysylltiadau gwerthfawr yn y gymuned**

Cafodd yr holl ddisgyblion gyfle i fod yn rhan o'r thema 'Cynaliadwyedd yn ein pentref ni'. Nod y gweithgareddau dysgu oedd i godi ymwybyddiaeth a dwysáu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd cynaliadwyedd yn yr ardal leol a thu hwnt. Mae'r thema wedi datblygu medrau gwyddoniaeth a thechnoleg disgyblion yn hynod lwyddiannus trwy weithredu ymchwil go iawn a dysgu am effaith pobl ar yr amgylchedd.

Mae'r disgyblion hynaf wedi ymateb i holiadur ar gyfer y trigolion lleol a busnesau Rhosneigr, sy'n cynnwys ateb cwestiynau am yr amgylchedd a'u bywydau nhw yn yr ardal leol. Yn ogystal, casglwyd gwybodaeth am yr heriau mae trigolion y pentref yn eu wynebu mewn ardal sy'n denu llawer o dwristiaid.

Nodwedd arbennig o'r ymchwil yw dylanwad cynhyrchiol partneriaethau'r ardal sy'n cynnwys aelodau'r cynghorau cymuned a'r awdurdod, a'r Sŵ Môr cyfagos. Mae'r gwaith wedi cryfhau ymrwymiad a brwdfrydedd y disgyblion at eu dysgu, darparu cyfleoedd bwriadus iddynt ddatblygu eu medrau sylfaenol a dyfnhau eu dealltwriaeth o wyddoniaeth amgylcheddol. Mae hyn yn eu paratoi i fod yn ddinasyddion gwybodus sy'n falch o fyw yn ardal Rhosneigr.

Mae'r berthynas waith gynhaliol rhwng disgyblion a staff yn gryfder. Mae gan y staff adnabyddiaeth dda o anghenion cymdeithasol ac addysgol disgyblion ac maent yn

eu cefnogi i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae cymorthyddion yn cefnogi lles a dysgu disgyblion yn effeithiol. Er hyn, nid yw’r gweithgareddau dysgu bob amser yn ymateb i anghenion ac yn herio’r holl ddisgyblion. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig ac uwch yn ystod y sesiynau dysgu.

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda yn ystod eu gweithgareddau, wrth weithio’n annibynnol, ac wrth gyd-chwarae â’u ffrindiau yn ystod amseroedd egwyl. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn datblygu ystod o fedrau yn dda. Maent yn gwrando’n astud ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau ei gilydd. Mae medrau llafar a darllen Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblon yn datblygu’n effeithiol. Er hyn, nid yw eu medrau llafar a darllen Cymraeg yn datblygu i’r un safon.

Mae rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau ysgrifennu sylfaenol yn fuan. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn ysgrifennu gwahoddiad syml i aelodau o’u teulu i fynychu dathliad blwyddyn newydd Tsieinieadd. Wrth iddynt symud drwy’r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o nodweddion gwahanol ffurfiau ysgrifennu. Er hyn, nid yw medrau ysgrifennu Cymraeg disgyblion yn datblygu i’r un safon â’u medrau ysgrifennu Saesneg.

Mae medrau cyfrifo llawer o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu’n dda; er enghraifft mae disgyblion y dosbarth meithrin yn cyfrifo gwahanol wrthrychau hyd at 5 yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae disgyblion yn casglu, cofnodi a dadansoddi data ar siartiau addas i ddangos sbwriel sydd wedi cael ei ddarganfod ar y traeth. Mae medrau rhif y rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn datblygu’n dda. Mae ganddynt afael gadarn ar waith rhif sy’n eu galluogi i drin ffracsiynau cymhleth yn hyderus a defnyddio degolion yn gywir.

O oedran cynnar, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso’u medrau digidol mewn ystod o gyd-destunau creadigol i gefnogi eu dysgu ehangach. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 i 6 yn defnyddio eu medrau digidol yn hyderus i gefnogi ymchwil annibynnol, ac ysgrifennu, golygu, ailddrafftio a chyflwyno eu canfyddiadau yn effeithiol.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu pwrpasol sy’n cefnogi disgyblion i adnabod eu cryfderau a’r meysydd sydd angen eu gwella yn eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i’r adborth llafar maent yn ei gael gan staff.

Mae staff yn darparu cynhaliaeth bwrpasol a chyraeddadwy i ddisgyblion sydd ag ADY sy’n cefnogi eu hanghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol yn glir. Mae’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) yn cyflawni ei rôl yn drylwyr er mwyn adnabod anghenion lles ac addysgol disgyblion. Mae’r ysgol yn cyfathrebu’n effeithiol â rhieni ynglŷn â’r ddarpariaeth ADY, gyda’r disgyblion yn rhan ganolog o’r trefniadau. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael cefnogaeth sy’n diwallu eu hanghenion yn fwriadus.

Mae staff yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol a moesol yn bwrpasol. Er enghraifft, o fewn y gwasanaethau torfol, mae cyfleoedd cyfoethog yn cael eu darparu i ddisgyblion fyfyrio ar faterion moesegol pwysig, gan gynnwys dangos caredigrwydd a pharchu hawliau eraill o fewn cymdeithas. Mae’r rhan fwyaf o

ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth glir o'r gwerthoedd hanfodol sy'n cyfrannu at eu datblygiad fel unigolion cyflawn a dinasyddion cyfrifol, gan gynnwys dangos caredigrwydd a pharch at eraill. Mae'r modd y mae'r disgyblion hynaf yn cefnogi a gofalu am y disgyblion ieuengaf yn ystod amseroedd egwyl yn adlewyrchu hyn yn effeithiol.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o fywydau pobl du dylanwadol, gan gynnwys Matrin Luther King a Jessie Owens. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddwysáu eu dealltwriaeth o wneud dewisiadau bywyd iach ac yn darparu cyfleoedd amrywiol iddynt ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol trwy weithgareddau hwyliog a difyr.

Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau cadw'n ddiogel, gan gynnwys wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn gyson a phrydlon sy'n cyfrannu'n effeithiol at gynnal a chynyddu'r cyfraddau presenoldeb.

Mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain trwy ystod o rolau a'u gwaith ar gynghorau 'llais y disgybl'. O ganlyniad, maent yn hyderus wrth esbonio sut mae eu gwaith yn gwneud gwahaniaeth i fywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae aelodau'r 'criw Cymraeg' yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym musnesau Rhosneigr yn llwyddiannus.

Mae staff yn darparu ystod o weithgareddau awyr agored hygyrch i'r holl ddisgyblion, er enghraifft wrth ddefnyddio'r ardaloedd allanol ysgogol yn greadigol. Yn ogystal, manteisir ar bob cyfle i ddisgyblion ddysgu a datblygu eu medrau yn yr ardal leol. Mae'r disgyblion hynaf yn elwa'n gymdeithasol hefyd o fynychu cwrs preswyl yng ngwersyll yr Urdd. Caiff profiadau dysgu'r disgyblion eu cyfoethogi wrth fynd ar ymweliadau cyffrous a thrwy gael cyfleoedd buddiol i gydweithio ag ymwelwyr. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn ymweld â'r ganolfan egni leol i gyfoethogi eu dealltwriaeth o faterion amgylcheddol. Yn ogystal, bachwyd ar y cyfle i ddisgyblion gyfansoddi a pherfformio cân gyfoes gydag un o sêr y byd cerddoriaeth Gymraeg. O ganlyniad, trwy'r gweithgareddau amrywiol, dengys llawer o'r disgyblion ddiddordeb cynhenid yn eu dysgu.

Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi a herio staff yn effeithiol. Maent yn trafod gyda'r pennaeth a'r staff sydd â chyfrifoldebau penodol yn ystyrlon am waith yr ysgol, gyda hyn yn cyfrannu'n briodol at lunio blaenoriaethau gwella. Mae gan arweinwyr weithdrefnau addas i gywain tystiolaeth sy'n eu galluogi i adnabod beth sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei wella. Er hyn, nid yw'r dulliau i wella medrau llafar a darllen Cymraeg disgyblion wedi cael effaith ddigon cadarnhaol ar gynnydd disgyblion. Maent yn gwneud defnydd addas o grantiau i sicrhau cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol.

Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol yn cael eu trefnu ar gyfer yr holl staff. Mae'r cyfleoedd hyn yn cysylltu ag agweddau sydd angen i'r ysgol wella ac o anghenion datblygiad a diddordebau unigolion. Enghraifft dda o hyn yw'r cyfleoedd i athrawon gydweithio ag ysgolion lleol eraill ac arbenigwyr rhanbarthol i ddatblygu gweithgareddau dysgu gwyddoniaeth a thechnoleg.

Mae gan y pennaeth a'r staff berthynas gynhyrchiol a systemau cyfathrebu effeithiol â rhieni. O ganlyniad, mae rhieni'n hyderus i godi unrhyw fater all effeithio ar les a dysgu eu plant. Mae rhieni'n gwerthfawrogi cyfleoedd gwerthfawr i fynychu boreau i ddathlu gwaith eu plant yn y sesiynau 'Boreau Balch'.

## Cydymffurfiaeth statudol

### Trefniadau diogelu

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

### Bwyta ac yfed yn iach

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

### Cyllid ysgol

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

### Materion iechyd a diogelwch (diogelwch y safle)

Dim pryderon.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/04/2024